PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**E-lawlyfr 2**

**CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL**

Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

## Adnodd 2

# *Rhyddfrydiaeth: Ffrydiau Amrywiol*

# Canllaw i Athrawon

International Politics

Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# CANLLAW I ATHRAWON

Mae'r adnodd hwn, ***Rhyddfrydiaeth: Ffrydiau Amrywiol***, yn un o wyth sy'n rhan o ***E-lawlyfr 2: Cyflwyniad i Syniadau Gwleidyddol***. Mae pob un o'r adnoddau sy'n rhan o'r e-lawlyfr hwn wedi'u teilwra'n arbennig i gynorthwyo'r sawl sy'n dysgu neu'n astudio Uned 3 o fanyleb CBAC ym maes Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Cysyniadau a Damcaniaethau Gwleidyddol.'

Bwriad yr adnodd hwn yw rhoi sylw i faterion sy'n berthnasol i adran 3.1.1 o'r fanyleb, sef 'Gwerthoedd a Syniadau Sylfaenol Rhyddfrydiaeth'. Gwneir hynny trwy gynnig cyflwyniad i rai o'r prif ffrydiau Ceidwadol a gaiff eu rhestru yn yr adran hon o'r fanyleb, sef Rhyddfrydiaeth Glasurol a Rhyddfrydiaeth Fodern. Dylid nodi bod cysylltiad agos rhwng yr adnodd hwn ac Adnodd 1, Rhyddfrydiaeth: Nodweddion Allweddol, sy'n cyflwyno rhai o'r elfennau rhyddfrydol sydd hefyd yn cael eu rhestru yn adran 3.1.1 o'r fanyleb.

Bwriad y canllaw byr yma yw cynnig amlinelliad o gynnwys yr adnodd a hefyd gorolwg o'r math o ymarferion a geir yn y llawlyfr gwaith.

## Cynnwys y Llawlyfr Gwybodaeth

Cynigia'r llawlyfr gwybodaeth gyflwyniad cyffredinol i'r ddwy brif ffrwd ryddfrydol: Rhyddfrydiaeth Glasurol a Rhyddfrydiaeth Fodern.

I ddechrau, trafodir Rhyddfrydiaeth Glasurol. Eglurir mai hon yw'r hynaf o'r ddwy ffrwd a'i bod wedi bod yn arbennig o boblogaidd yn ystod y bedwaredd ar bymtheg. Amlinellir rhai o brif nodweddion y traddodiad gan gynnwys y pwyslais ar elfennau megis unigolyddiaeth haniaethol, rhyddid negatif a gwladwriaeth gyfyngedig. Trafodir hefyd syniadau rhai o'r meddylwyr pwysig a gaiff eu cysylltu â'r ffrwd hon o ryddfrydiaeth, yn benodol syniadau John Locke ac Adam Smith.

Yn ail, trafodir Rhyddfrydiaeth Fodern. Eglurir bod hon yn ffrwd a ddatblygodd yn ystod degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'i bod wedi ennill cefnogaeth y mwyafrif o ryddfrydwyr yn ystod degawdau canol yr ugeinfed ganrif. Dangosir sut mae pwyslais y traddodiad hwn ar elfennau megis unigolyddiaeth gymdeithasol, rhyddid positif a gwladwriaeth ymyraethol yn tynnu'n groes i'r math o syniadau a gysylltir â rhyddfrydiaeth glasurol. Trafodir hefyd syniadau rhai o'r meddylwyr pwysig a gaiff eu cysylltu â rhyddfrydiaeth fodern, yn benodol syniadau T. H. Green a John Maynard Keynes.

## Ymarferion yn y Llawlyfr Gwaith

Mae tasgau cyntaf y llawlyfr gwaith yn cynnig cyfle i'r disgyblion ddysgu mwy ynglŷn a ag ystod o feddylwyr Rhyddfrydol pwysig. Amcan y gweithgareddau dilynol yw rhoi cyfle i'r disgyblion ddyfnhau eu dealltwriaeth o brif nodweddion y ffrydiau Rhyddfrydol gwahanol a drafodwyd yn y llawlyfr gwybodaeth a hefyd i gymharu, cyferbynnu a chloriannu'r nodweddion hyn. Mae'r gweithgareddau'n galw am restru pwyntiau perthnasol mewn tablau a hefyd yn galw am lunio atebion ysgrifenedig sy'n amrywio o ran eu hyd.

## DARLLEN PELLACH

Barbara Goodwin, *Using Political Ideas* (Chichister, John Wiley & Sons Ltd, 2014), pennod ar Ryddfrydiaeth, tud 39-72.

Andrew Vincent, *Modern Political Ideologies* (Rhydychen, Wiley-Blackwell, 2010), pennod ar Ryddfrydiaeth, tud 22-55.